



Annwyl gydweithiwr,

17/10/2022

Wrth iddi ddechrau tywyllu'n gynharach gyda'r nos, rydym yn gweld mwy o'r arwyddion tymhorol bod y gaeaf yn prysur agosáu. Mae'n amlwg y bydd y gaeaf hwn yn her sylweddol nid yn unig i'r GIG, ond hefyd i unigolion a chymunedau ledled y DU.

Yma ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro rydym yn parhau i fireinio ein cynlluniau i wneud yn siŵr bod pawb mor ddiogel â phosibl y gaeaf hwn, gan sicrhau bod ein timau yn y sefyllfa orau posibl o safbwynt capasiti a chynllunio i fynd i'r afael â'r heriau y byddwn yn eu hwynebu.

Yn anffodus, mae llawer o'n gwasanaethau eisoes dan bwysau aruthrol cyn i'r gaeaf hyd yn oed gyrraedd, ac rydym wedi gweld y galw am ein gwasanaethau yn cynyddu eto dros y penwythnos. Mae hyn yn golygu bod cael mynediad at wasanaethau, boed yn ofal sylfaenol, gofal iechyd meddwl, gofal brys ac mewn argyfwng neu ofal wedi'i gynllunio, yn her i'r rhai sy'n ceisio ein cymorth. Gall y profiad olygu arosiadau hirach ac anghyfforddus am asesiad a thriniaeth ac rwy'n ymddiheuro am hyn. Mae'r sefyllfa bresennol hefyd yn anhygoel o anodd i'r tîm, y mae eu hymrwymiad a'u hymroddiad i ddarparu'r gofal gorau posibl yn wyneb amgylchiadau anodd yn ddiwyro ac yn fy ngwneud yn hynod o falch a diolchgar.

Rydym yn annog y cyhoedd i beidio â cheisio cael gafael ar wasanaethau oni bai ei bod yn gwbl angenrheidiol, ac yn achos yr Uned

Achosion Brys - lle mae ganddynt salwch neu anaf difrifol sy'n peryglu bywyd. Ystyriwch yr holl opsiynau sydd ar gael ar gyfer cael gafael ar ofal iechyd. Os ydych yn sâl ac yn ansicr beth i'w wneud, gallwch edrych ar wiriwr symptomau ar-lein y GIG neu ffonio GIG 111 i gael cyngor. Mae ein tudalennau gwe Dewis Sylfaenol hefyd yn amlygu'r ystod o wasanaethau sydd ar gael trwy ddarparwyr Gofal Sylfaenol fel practisau meddygon teulu a fferyllwyr cymunedol.

Byddwn hefyd yn annog fy holl gydweithwyr a'r cyhoedd i wneud popeth o fewn eu gallu i osgoi mynd yn sâl y gaeaf hwn trwy fanteisio ar y brechlyn dos atgyfnerthu COVID-19 a'r brechlyn ffliw os ydych chi'n gymwys. Os na allwch ddod i'ch apwyntiad dos atgyfnerthu COVID-19 gallwch [aildrefnu drwy lenwi ffurflen ar ein gwefan](#) neu drwy ffonio'r llinell trefnu apwyntiadau ar 02921 841234.

Yn dilyn fy sesiwn Holi Suzanne yn ddiweddar ar yr Argyfwng Costau Byw, mae adnodd newydd ar gael ar safle SharePoint y tîm gydag amrywiaeth o wybodaeth, cyngor a chefnogaeth a allai fod yn ddefnyddiol i gydweithwyr er mwyn eu helpu i gefnogi eu hunain, teulu a ffrindiau, neu gleifion, a byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

I orffen ar nodyn cadarnhaol, roeddwn i'n teimlo'n freintiedig iawn o gael fy ngwahodd i Wobrau Sêr Llawfeddygaeth 2022 yn gynharach yr wythnos hon ac i fod yn rhan o'r dathliad o ymdrech tîm, cyflawniad unigol ac

ymrwymiad. Gallech deimlo cyfeillgarwch y tîm yn yr ystafell a'r pleser yn llwyddiannau ei gilydd. Mae dathliadau fel hyn mor bwysig, yn enwedig pan mae'n gallu teimlo ac ymddangos nad yw ein gwaith a'n hymdrechion yn cael eu gwerthfawrogi, eu cydnabod na'u dathlu. Llongyfarchiadau mawr i'r holl enwebeion ac enillwyr, diolch am y gwahoddiad (awgrym i unrhyw dimau eraill sy'n cynnal dathliad!) roedd yn noson bleserus iawn.

Cyfarfûm â dau dîm arall yr wythnos hon hefyd a wnaeth unwaith eto greu argraff arnaf a'm hysbrydoli gyda'u harbenigedd, angerdd ac awydd i arloesi'n barhaus a gwella ansawdd y gofal y maent yn ei roi, y canlyniadau a gyflawnir yn ogystal â phrofiad y cleifion a'u cydweithwyr. Diolch yn fawr iawn i'r Tîm Gwasanaeth Parkinson yn ogystal â Thîm YALL Ward Dwyrain 10. Fe wnes i wir fwynhau cwrdd â chi i gyd, clywed a dysgu mwy am eich gwaith yn ogystal â rhoi cyfle i mi ddiolch i chi i gyd yn bersonol.

Os ydych chi neu'ch tîm eisiau rhannu eich stori, her, cyfle neu ddathliad yna rhwch wybod i mi fel y gallwn drefnu hynny. Cysylltwch â mi ar suzanne.rankin@wales.nhs.uk.

Yn olaf, hoffwn orffen drwy ddweud diolch yn fawr iawn i bawb ar draws tîm Caerdydd a'r Fro am eich ymdrechion anhygoel yn ystod cyfnod hir ac anodd. Mae'r gofal yr ydych yn ei ddarparu yn wyneb cyfyngiadau o'r fath yn rhyfeddol, ac rwy'n hyderus iawn, trwy weithio gyda'n gilydd, cyfathrebu'n effeithiol, gofalu am ein gilydd a delio â phopeth a wnawn mewn ffordd garedig a thosturiol, y byddwn yn gallu wynebu'r misoedd sydd i ddod yn ddiogel. Diolch i chi a chymerwch ofal.

Dymuniadau gorau

Suzanne

Newidiadau gweithredol yn gwella effeithlonrwydd y Llwybr Canser Sengl

Fel Bwrdd Iechyd, rydym yn gwneud gwaith i wella effeithlonrwydd ac amseroldeb triniaeth cleifion ar Llwybr Canser Sengl (SCP), gan gynnwys newidiadau gweithredol i helpu i nodi a blaenoriaethu cleifion ar y llwybr.

Mae'r diweddariad diweddaraf yn cynnwys cyflwyno system sticeri Llwybr Canser Sengl (SCP), i sicrhau nad oes unrhyw oedi mewnol i ddiagnosis a thriniaeth claf. Bydd y system sticeri SCP yn cael ei defnyddio ar bob gohebiaeth sy'n ymwneud â chleifion ar lwybr cancer sengl, gan gynnwys atgyfeiriadau at arbenigedd arall, ceisiadau am ddiagnosteg fel radioleg a phatholeg, a cheisiadau am driniaeth.

Mae ein tîm gwasanaethau cancer wedi bod yn gweithio'n galed i gyfathrebu â'r holl wasanaethau sy'n rheoli cleifion cancer i helpu i leihau'r niwed posibl a achosir gan gleifion yn aros yn hirach nag sydd angen am ddiagnosis a thriniaeth. Ar draws y Bwrdd Iechyd mae cydweithio i wella'r canlyniadau i'n holl gleifion cancer yn parhau'n flaenoriaeth.

Gall cydweithwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ddarganfod mwy am y system sticeri SCP ar dudalen newyddion SharePoint.

Llwyddiant prentisiaid gyda gofal sylfaenol

Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, rydym yn ymfalchïo mewn bod yn lle gwych i hyfforddi a gweithio ac rydym yn angerddol am ddenu, recriwtio a chadw aelodau gwerthfawr o staff a all helpu i lunio ein gweithlu.

Un cynllun yn arbennig sydd wedi gweld llwyddiant diweddar yw Prentisiaeth Gweinyddu Busnes Gofal Sylfaenol, sydd wedi gweld tri unigolyn yn ymuno â'r tîm Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolradd (PCIC) dros y flwyddyn ddiwethaf i ddatblygu eu sgiliau, eu profiad a'u gwybodaeth i gychwyn ar yrfa o fewn gofal sylfaenol.

Mae Rhys Pepper, Jennifer Searle a Beatrice Ferda-Riley wedi treulio'r deuddeg mis diwethaf yn cefnogi gyda gweinyddiaeth, busnes a rheoli contractau, dyletswyddau derbynfa, cyfathrebu a gwaith data a mynychu amrywiaeth o gyfarfodydd. Treuliodd pob prentis wyth mis o'u lleoliad gyda phractis meddyg teulu a'r 4 mis arall yn gweithio ochr yn ochr â'r Tîm Gofal Sylfaenol yn y Bwrdd Iechyd i gael profiad eang o bractis cyffredinol gweithredol, rheoli contractau a chynllunio strategol.

Dyma'r tro cyntaf i'r tîm gofal sylfaenol groesawu prentisiaid, ac mae cefnogaeth Rhys, Jennifer a Beatrice wedi bod yn allweddol i'r gwasanaeth. Cynigiwyd swyddi parhaol i bob un o'r tri unigolyn gyda'u practis meddyg teulu a oedd yn eu cynnal a gwnaethant ddechrau ar eu rolau newydd fis diwethaf.

Mae Josie Smith, ein Rheolwr Contractau a Datblygu Gofal Sylfaenol wedi derbyn adborth

gwyb am y prentisiaid. Dywedodd: "Mae llwyddiant y prentisiaid yn dangos cymaint o ddylanwad y maen nhw wedi'i gael yn ystod eu cyfnod ar leoliad. Mae'r galw am wasanaethau Gofal Sylfaenol ar draws y system wedi cynyddu'n aruthrol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac mae awydd a phenderfyniad y prentisiaid i gefnogi yn ystod cyfnodau heriol wedi bod yn drawiadol iawn.

"Dangosodd pob prentis egni a phenderfyniad i ymateb i anghenion y practis, rheoli eu cyfrifoldebau eu hunain a datblygu eu set sgiliau. Mae'r adborth a dderbyniwyd gan y practisau wedi bod yn hynod gadarnhaol. Dymunwn bob llwyddiant i Jennifer, Beatrice a Rhys gyda'u gyrfaedd newydd."

[I ddarganfod mwy am raglen brentisiaeth PCIC a beth oedd barn Jennifer, Rhys a Bea am eu lleoliadau, ewch i'r dudalen we hon.](#)

Pob lwc i Jennifer, Rhys a Beatrice wrth iddyn nhw ddechrau eu gyrfaedd gyda BIP Caerdydd a'r Fro!

Prif system manifold ocsid nitrus wedi'i datgomisiynu yn Ysbyty Athrofaol Cymru

Mae'r brif system manifold ocsid nitrus yn Ysbyty Athrofaol Cymru wedi cael ei datgomisiynu'n llwyddiannus, gan nodi cam enfawr o ran ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i leihau allyriadau carbon deuocsid (CO₂).

Defnyddir ocsid nitrus yn gyffredin mewn gofal iechyd ar gyfer anaestheteg ond er ei fod yn rhan hanfodol o ddarparu gofal iechyd, fe'i hystyrir yn nwy tŷ gwydr niweidiol. Mae astudiaethau'n dangos bod gan ocsid nitrus fwy na 265 gwaith y potensial cynhesu byd-eang na charbon deuocsid (CO₂).



Ar hyn o bryd mae pedwar manifold ocsid nitrus ar draws safleoedd y Bwrdd Iechyd, sef y dull storio nodweddiadol. Mae canfyddiadau gan ein tîm prosiect amlddisgyblaethol wedi nodi y gall gwastraff o'r math hwn o system fod yn uchel oherwydd gollyngiadau a cholli nwy o'r cyflenwad.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi treialu silindrau ocsid nitrus cludadwy yn Ysbyty Plant Cymru fel rhan o gynllun peilot unigol sydd wedi cynyddu effeithlonrwydd yn sylweddol, o 2.5% i 74%. Mae hyn yn dangos bod enillion sylweddol i'w gwneud o symud o gyflenwad pibell i gyflenwad silindr cludadwy.

Yn dilyn y peilot llwyddiannus, gwnaeth y tîm gyflwyno'r astudiaeth beilot ar draws y sefydliad drwy'r Academi Lledaeniad a Graddfa gyda'r uchelgais i rannu mewnwelediadau ac annog newid ledled Cymru.



Yn gynharach eleni, cafodd y system manifold ar safle Ysbyty Athrofaol Llandocho ei datgomiynu'n llawn. Erbyn hyn, dim ond dau o'r pedwar manifold sy'n dal i gael eu defnyddio, y manifold deintyddol yn Ysbyty Athrofaol Cymru a manifold yn Ysbyty Dewi Sant. Mae prosiect ar y gweill i edrych ar ddatgomiynu'r manifoldau hyn sy'n weddill. Mae'r tîm wedi gwneud cynnydd gwych hyd yn hyn ac rwy'n edrych ymlaen at weld gweddill eu gwaith rhagorol yn dwyn ffrwyth.

[Gallwch ddarllen mwy am y prosiect yma.](#)

Canmoliaeth uchel i Sefydliad Calon y Ddraig yng Ngwobrau Arloesi Conffederasiwn y GIG a Rhwydwaith AHSN

Roedd yn bleser gennyf weld bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi derbyn canmoliaeth uchel yn ddiweddar yng Ngwobrau Arloesi Conffederasiwn y GIG a Rhwydwaith AHSN yn y categori System Iechyd Arloesol y Flwyddyn am ei raglen waith Sefydliad Calon y Ddraig.

Mae'r Gwobrau Arloesi yn gydweithrediad rhwng Rhwydwaith AHSN, sy'n gweithredu fel cangen arloesi'r GIG yn Lloegr ac yn gweithredu fel llais ar y cyd i'r 15 rhwydwaith gwyddor iechyd academaidd (AHSNs); a Chonffederasiwn y GIG, y corff aelodaeth, sy'n cynrychioli gofal iechyd yn y DU.

Mae'r categori System Iechyd Arloesol y Flwyddyn, lle cyrhaeddodd Sefydliad Calon y Ddraig y rhestr fer, yn cydnabod systemau iechyd a gofal lle mae diwylliant o arloesi yn sylfaen i'r ffordd y caiff pethau eu cyflwyno, gan dathlu sefydliadau sydd â'r diwylliant, y gallu a'r hanes o fabwysiadu a lledaenu arloesedd ar raddfa.

Cawsom ganmoliaeth uchel yn y categori hwn am y gwaith sy'n gysylltiedig â Sefydliad Calon y Ddraig, a ddatblygwyd yn dilyn blwyddyn gyntaf y pandemig COVID-19 i arwain arloesedd, datblygu arweinwyr y dyfodol, ac i weithredu fel catalydd ar gyfer newid ar draws gwasanaethau cyhoeddus i wella canlyniadau i ddinasyddion Caerdydd a Bro Morgannwg, Cymru a thu hwnt.

Darllenwch fwy: <https://dragonsheart.org/cy/canmoliaeth-uchel-i-sefydliad-calon-y-ddraig-yng-ngwobrau-arloesi-conffederasiwn-y-gig-a-rhwydwaith-ahsn/>

Tîm Dysgu a Datblygu Dementia

Mae Tîm Dysgu a Datblygu Dementia newydd wedi'i sefydlu i gefnogi cydweithwyr ar draws system iechyd Caerdydd a'r Fro i ddarparu'r gofal gorau posibl i gleifion â dementia.



Wedi'u hariannu gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro, bydd yr Hyfforddwyr Agweddau Positif at Ofal (PAC) yn helpu cydweithwyr i weld gofal o safbwynt y rhai sy'n byw gyda dementia, eu cysylltu â theori newid yr ymennydd a deall sut y gall pobl sy'n byw gyda dementia gael eu galluogi i fyw'n dda, a chyflwyno sgiliau PAC a chefnogi cydweithwyr i ddeall sut y gallant gefnogi a galluogi gofal sy'n canolbwyntio ar gydb berthnasau.

[Gallwch gwrdd ag aelodau'r tîm ar wefan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yma.](#)

Hwyl fawr i Alison a Sue

Mae Alison Needham, Cydlynnydd Gweithgareddau a Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd yn YALL yn ymddeol ar ôl 22 mlynedd o wasanaeth.



Mae Alison wedi gweithio mewn sawl rôl, ac er gwaethaf rhwystrau personol ei hun yn y cyfnod hwn mae hi wedi dod i mewn ddydd ar ôl dydd a dod â chysur, llawenydd ac adloniant i gleifion, staff, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Yn ystod y cyfnod hwnnw, mae Alison wedi rhoi cefnogaeth i lawer o staff a gwirfoddolwyr newydd ac wedi mynd gam ymhellach i helpu cleifion i ddathlu achlysuron arbennig fel y Nadolig a digwyddiadau brenhinol. Mae hi wedi gwella bywydau cymaint o gleifion, ac mae'n bendant yn haeddu'r amser i'w hunan y mae'n edrych ymlaen ato yn ei hymddeoliad.

Gwnaeth cydweithiwr Alison, Natalie McCulloch, Cynorthwydd Adsefydlu Amlbroffesiynol yn y Ganolfan Adsefydlu ar ôl Strôc ddisgrifio Alison fel ffynhonnell gyson o ysbrydoliaeth, tosturi a doethineb, a'i bod yn anrhydedd gweithio ochr yn ochr â hi.



Yr wythnos hon, rydym hefyd yn ffarwelio â'n Cyfarwyddwr Bwrdd Clinigol Diagnosteg a Therapiwteg Glinigol ar gyfer Ansawdd a Diogelwch, Sue Bailey.

Mae Sue yn ymddeol ar ôl gyrfa 37 mlynedd yn y GIG, ac mae bron i 20 o'r rheini wedi bod gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, i ddechrau fel Cofrestrydd Uwcharolygol ac yn fwy diweddar mewn rolau arwain yn y Bwrdd Clinigol CD&T.

Hoffwn ddiolch i Sue am ei hymroddiad i'r GIG dros y blynyddoedd hynny, yn enwedig y rhai a dreuliwyd yma ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ac ar ran y sefydliad, hoffwn ddymuno'r gorau iddi ar ei hymddeoliad a'r blynyddoedd i ddod.

Cleifion yn diolch am Wasanaeth Cancer Niwroendocrin 'Ardderchog' De Cymru

Ddydd Iau diwethaf, gwnaeth cleifion Gwasanaeth Cancer Niwroendocrin De Cymru gynnal dathliad i gydnabod ei ragoriaeth.

Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal i gleifion sy'n byw yn ne Cymru sydd â Chanserau Niwroendocrin (sy'n cynnwys Tiwmorau Niwroendocrin - NETs), canserau anghyffredin ond sy'n dod yn fwyfwy cyffredin sy'n deillio o wahanol organau'r corff.

Wedi'i gynnal yma ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, dyfarnwyd statws Canolfan Ragoriaeth Cymdeithas Tiwmorau Niwroendocrin Ewrop (ENETS) i'r gwasanaeth eleni, gan nodi carreg filltir arwyddocaol yn ystod cyfnod o drawsnewid ar gyfer y gwasanaeth a ddechreuodd yn 2017. Mae wedi derbyn adolygiadau disglair gyda boddhad cleifion yn cynyddu'n aruthrol i dros 95 y cant yn ystod y cyfnod hwnnw, ac wedi ennill a derbyn enwebiadau ar gyfer cyfres o wobrau'r DU a gwobrau rhyngwladol.

Yn ystod y digwyddiad dathlu, a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Vale yn Hensol, bu aelodau o Wasanaeth Cancer Niwroendocrin De Cymru a'i gleifion yn rhannu eu profiadau o'r gwasanaeth a'i drawsnewidiad dros y pum mlynedd diwethaf.

Gwnaeth Adam Kay, awdur, digrifwr a chyn-feddyg, gymryd rhan yn y digwyddiad yn ei rôl fel llysgennad cronfa Cancer Niwroendocrin De Cymru yn elusen Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, a fydd yn cefnogi'r gwasanaeth i weithredu prosiectau arloesol a gweithgareddau ymchwil i wella gofal i gleifion yng Nghymru wrth ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r cancer, sut y gellir ei ganfod yn gynharach, ac er mwyn datblygu therapïau a strategaethau rheoli newydd.

Mae cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio at Wasanaeth Cancer Niwroendocrin De Cymru yn cael gofal arbenigol wedi'i deilwra i'w hanghenion amrywiol, cymhleth gan dîm amlddisgyblaethol o arbenigwyr nyrsio clinigol, patholegwyr, gastroenterolegwyr, radiolegwyr, deietegwyr, oncolegwyr, endocrinolegwyr, llawfeddygon cyffredinol ac arbenigol, gofal lliniarol, a chardiolegwyr, o dan arweiniad y Gastroenterolegydd Ymgynghorol, Dr Mohid Khan.

Mae'r gofal a ddarperir yn cynnwys asesiad diagnostig manwl gywir, rheoli symptomau holistaidd gan gynnwys maeth, monitro rhagweithiol, sganiau gwyliadwriaeth, adolygiadau clinigol ac amrywiaeth o therapïau neu lawdriniaeth.

Dylai Mohid a'r Tîm sy'n darparu Gwasanaeth Cancer Niwroendocrin ehangach De Cymru fod yn hynod falch o'u cyflawniadau aruthrol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae eu hymdrechion rhagorol wedi cael effaith sylweddol, gadarnhaol ar ansawdd gofal cleifion, a amlygwyd gan y gydnabyddiaeth wych hon ac adborth cadarnhaol gan eu cleifion.

Diolch, llongyfarchiadau a da iawn i'r tîm!

Diwrnod Shwmae

Roedd hi'n Ddiwrnod Shwmae ddydd Sadwrn diwethaf, a nod y diwrnod yw dathlu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy annog pawb yn y gweithle i'w defnyddio, drwy ddechrau pob sgwrs gyda 'shwmae'.

Hoffwn ddiolch i gydweithwyr a gymerodd ran yn y diwrnod, sy'n helpu i dynnu sylw at le'r iaith ym mywydau pob un ohonom, o siaradwyr rhugl i ddysgwyr a'r rhai sy'n dal yn ansicr am eu Cymraeg eu hunain.

Beth bynnag fo lefel eich rhuglder, rwy'n annog cydweithwyr i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg nid yn unig ar Ddiwrnod Shwmae ond bob dydd, i helpu i ddathlu ein diwylliant sy'n gweithredu ym mhrifddinas y genedl, ac i sicrhau bod ein gwasanaethau mor hygyrch a chroesawgar ag y gallant fod ar gyfer pawb yn y gymuned.

Er mwyn helpu cydweithwyr i gyfarch ei gilydd, cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, mae ein tîm Cymraeg wedi cynhyrchu cardiau atgoffa sy'n cynnwys ymadroddion hanfodol, y gellir eu harchebu gan ein Swyddog y Gymraeg, Alun Williams.



Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro

Jonathan Aver yn cael ei goroni'n Arwr Iechyd ar gyfer mis Hydref

Mae Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yn falch o gyhoeddi bod Jonathan Aver, Uwch Swyddog Adeiladu Cyfalaf wedi'i goroni'n Arwr Iechyd ym mis Hydref. Mae Jonathan wedi cael ei alw'n rhywun sydd bob amser yn arddangos gwerthoedd y sefydliad, ac wrth weithio o dan lawer o bwysau, mae'n parhau i ymgysylltu'n rhagweithiol a dymunol gydag eraill.

[Dysgwch fwy am pam y dewiswyd Jonathan yma.](#) Llongyfarchiadau Jonathan, mwynha dy rodd haeddiannol iawn!

